# Deddf Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) 2022

**2022 dsc 2**

**3 Datganiad polisi: rheoliadau o dan adran 1 sy'n cael effaith ôl-weithredol E+W**

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi datganiad o'u polisi mewn cysylltiad ag arfer y pŵer o dan adran 1 i wneud rheoliadau sy'n cael effaith ôl-weithredol.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r datganiad cyn diwedd y cyfnod o dri mis sy'n dechrau â'r dyddiad y caiff y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio'r datganiad, ac os gwnânt hynny, rhaid iddynt gyhoeddi'r datganiad diwygiedig.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 3 mewn grym ar 9.9.2022, gweler **a. 9**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) 2022, Adran 3.